



# Polisi TGCh-DCF

Dyddiad Cymeradwyo a Dyddiad Adolygu  
Date Approved and Review Date

*Gweler Cynllun Adolygu Polisiau*  
*See Policy Review Timetable*

## **Polisi Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) a Chymwyseddau Digidol.**

### **Rhagarweiniad**

Mae defnydd effeithiol o TGCh a Sgiliau Digidol ar draws y cwricwlwm yn hanfodol i addysg disgyblion. Mae newidiadau chwyldroadol yn y maes hwn yn cael effaith bell gyraeddol ar gyfathrebu, trin data a rheoli. Rhaid i'r disgyblion fod yn ymwybodol o'r newidiadau hyn ac yn medru defnyddio'r caledwedd a'r meddalwedd yn hyderus ac yn effeithiol.

### **Amcanion Polisi TGCh a Chymwyseddau Digidol**

- I gyfoethogi profiadau dysgu ac addysgu ar draws y cwricwlwm.
- I sicrhau bod disgyblion yn cael eu trwytho yn y sgiliau TGCh/Cymwyseddau digidol angenrheidiol o ran dinasyddiaeth digidol, rhyngweithio a chydweithio, cynhyrchu a chyfathrebu, trin a rheoli data a meddwl cyfrifiadurol.
- I sicrhau bod y disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio TGCh/Cymwyseddau Digidol.
- I ddeall canlyniadau TGCh/Cymwyseddau Digidol ar unigolion ac ar gymdeithas.
- Darparu'r sgiliau TGCh/Cymwyseddau Digidol angenrheidiol er mwyn bod disgyblion yn medru ymdopi mewn byd technolegol sy'n newid yn gyflym.
- Cefnogi disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol.
- Sicrhau mynediad i bawb/cyfle cyfartal o ran defnyddio TGCh/Cymwyseddau Digidol - a pheidio gwahaniaethu o ran oedran, rhyw, gallu nag anabled.
- I sicrhau bod disgyblion yn hyderus i ddefnyddio sgiliau TGCh/Cymwyseddau Digidol yn y Gymraeg a'r Saesneg.

### **Cyflwyno TGCh a chymwyseddau Digidol yn yr ysgol**

Gwiner hyn mewn nifer o ffyrdd:

1. Drwy ddarparu gwersi TGCh a Digidol i bawb ym mlynnyddoedd 7 a 8 fel rhan o gylch gwersi K, er mwyn gosod y sylfaen angenrheidiol;
2. Darparu gwersi TGCh a Digidol i ddisgyblion blwyddyn 9;
3. Cynnig TGAU TGCh/ Cyfrifiadureg fel ran o arlwy dewis rhydd ar gyfer opsiynau dewis TGAU;
4. Drwy cydweithio gydag ysgolion uwchradd Conwy a Coleg Llandrillo- Menai, sicrhau darpariaeth dilynol cyfrifiadureg lefel uwch AS ac A2;
5. Defnyddio TGCh a profiadau digidol ar draws y cwricwlwm ym mhob un pwnc. Golyga hyn:
  - Ddefnyddio'r Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol mewn gwersi;
  - Mynediad at adnoddau digidol Adrannol/Meysydd Dysgu a profiad e.e. cyfrifiaduron, cluniaduron, i-pads;
  - Defnyddio'r pecynnau generig megis prosesu geiriau, taenlenni, basdata a rheoli;
  - Defnyddio meddalwedd sy'n bwnc penodol e.e. meddalwedd i greu graffiau yn mathemateg; offer CAD-CAM mewn technoleg;
  - Defnyddio ipads, camerâu digidol a gosod y lluniau ar gof y cyfrifiadur e.e. gwersi ymarferol ac i gyfoethogi profiadau dysgu.

### **E-ddiogelwch**

#### Polisi Defnydd Derbyniol

Mae gan yr ysgol polisi Defnydd Derbyniol cyfoes (Atodiad 1) Mae angen i bob disgybl a'u rhieni arwyddo. Bydd digwyddiadau yn cael eu monitro a'u cofnodi yn y lle cyntaf gan dechnegydd neu reolwyr y rhwydwaith. Pam fydd y cytundeb yn cael ei dorri bydd gwybodaeth yn cael ei drosglwyddo i'r Gydlynnydd E-ddiogelwch/Swyddogion Amddiffyn Plant, Pennaethiaid Cynnydd a Lles neu aelod penodedig o'r Uwch Dim Rheoli a fydd wedyn yn cymryd camau priodol yn unol â pholisi'r ysgol gyfan.

## Hyfforddiant E-Ddiogelwch

Mae gwersi e-ddiogelwch yn cael ei ddarparu i bob myfyriwr trwy wersi TGCh a cymwyseddau digidol a drwy'r cynllun ABCh (gwersi tiwtorial). Rydym hefyd yn cyflwyno sesiynau cyfoes ar faterion e-Ddiogelwch a Dinasyddiaeth Digidol drwy ein rhaglen cyfoethogi e.e. ar secstio a rhwydweithio'n ddiogel. Defnyddir gwasanaethau'r ysgol hefyd er mwyn lledu negeseuon e-ddiogelwch pwysig e.e. seibr-fwlio ac ol-troed digidol. Mae rhieni a theuluoedd yn cael eu gwahodd i sesiynau mewn potraeth a'r gwasanaeth heddlu lled ac fel rhan o trefniadau pontio cynradd-uwchradd.

## Monitro a diogelwch Systemau

### *Systemau monitro e-ddiogelwch yr ysgol*

Yn fewnol rydym yn cynnal meddalwedd 'Imperio' sy'n monitor pob mynediad gwefannau a chyfathrebu. Mae defnydd y we yn yr ysgol hefyd yn cael ei fonitro drwy systemau hidlo Awdurdod Conwy a system 'Smoothwall' mewn partneriaeth a Cwmni Cynnal sydd yn cefnogi systemau TGCh yr ysgol. Mae unrhyw ddigwyddiad sydd yn torri polisi'r ysgol yn cael eu hadrodd i'r swyddog E-Ddiogelwch/Amddiffyn Plant.

## **DAD - Cynllun 'Dewch a'ch Dyfais'**

### *Beth yw Dyfais Bersonol?*

Dyfais bersonol yw unrhyw ddyfais/technoleg sydd â'r gallu i gysylltu gyda rhwydwaith diwifr yr ysgol fel tabledi, gliniaduron a ffonau clyfar. Os yw disgybl yn ansicr o ran penderfynu a yw dyfais yn dderbyniol neu beidio, dylai ef/hi gysylltu gydag aelod o'r Uwch Dim Rheoli a/neu'r Technegydd. Rhaid i bob disgybl lofnodi'r **Polisi Defnydd Derbyniol** hwn os yw ef/hi am ddefnyddio dyfais bersonol mewn gwersi.

## **Disgwyliadau:**

Isod fe welwch ddisgwyliadau'r ysgol o ran defnydd disgyblion o'u dyfeisiau personol. Mae pob un o'r disgwyliadau hyn yn berthnasol i fyfyrwyr pan fyddant ar, neu o gwmpas, safle'r ysgol. Bydd camddefnyddio dyfais yn arwain at y ddyfais yn cael ei wahardd o rwydwaith yr ysgol. Bydd disgyblion yn:

- ✓ defnyddio technoleg addas ar ddisgresiwn athrawon (drwy'r polisi 'DAD' a'r defnyddio system 'goleuadau traffig');
- ✓ ymwybodol nad yw'r ysgol yn atebol am golled, difrod, camddefnyddio, neu ddwyn o ddyfeisiau sy'n eiddo personol, hyd yn oed os cânt eu gadael mewn ystafelloedd wedi eu cloi;
- ✓ defnyddio'r ddyfais ar gyfer dibenion addysgol yn unig;
- ✓ defnyddio rhaglenni ac adnoddau digidol addysgol yn unig ar y ddyfais;
- ✓ cael mynediad i ffeiliau addysgol addas yn unig ar y ddyfais;
- ✓ cael caniatâd i ddefnyddio rhwydwaith yr ysgol drwy eu dyfeisiau personol, ond nid i rwydweithiau preifat. Ni chaniateir disgyblion i ddefnyddio gwasanaeth 3G neu 4G eu hun tra yn yr ysgol;
- ✓ dilyn rheolau pob hidlydd ysgol;
- ✓ cael mynediad i'r rhwydwaith drwy ddefnyddio'r rhwydwaith diwifr a ddarperir yn unig
- ✓ defnyddio clustffonau wrth wrando ar ffeiliau sain megis cerddoriaeth ar eu dyfais, fel bod y sain yn cael ei gadw ar lefel sydd ddim yn amharu ar eraill. Os yn yr ystafell ddosbarth, rhoddir caniatâd i ddisgyblion i wrando ar ffeiliau sain pan roddir caniatâd gan eu hathro yn unol a'r system goleuadau traffig DAD.
- ✓ dilyn cyfreithiau hawlfraint wrth ystyried copïo anghyfreithlon o gerddoriaeth, gemau, ffilmiau a gweithiau eraill sydd wedi eu diogelu.

## **Golygai hyn:**

;

- deall na ddylent ddod â chyfrifiaduron 'desktop' neu 'tower' i'r ysgol
- deall na ddylent gysylltu eu dyfeisiau i rwydwaith ardal leol drwy wifren Ethernet?
- deall na ddylent ddefnyddio unrhyw ddyfais fel teclyn i fwllian ar-lein
- deall nad oes caniatâd ganddynt i ddefnyddio consolau gemau neu ddyfeisiau gemau i gysylltu gyda'r rhwydwaith
- deall ni roddir caniatâd i dynnu ffotograffau neu recordiadau digidol o staff na myfyrwyr heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw. Gall y dosbarthiad o gyfryngau o'r fath arwain at waharddiad neu gyhuddiadau troseddol.
- osgoi rhannu enw defnyddiwr a chyfrineiriau gyda disgyblion a staff eraill
- osgoi defnyddio dyfeisiau personol tu allan i ystafelloedd dosbarth e.e. ar hyd y coridorau neu ar y meysydd chwarae.

#### Dibenion Addysgol:

Bydd disgyblion yn defnyddio'u dyfais electronig ar gyfer dibenion addysgol yn unig. Gall hyn fod mewn gweithgaredd dosbarth, megis: ymchwilio i bwnc; defnyddio cyfrifiannell ar gyfer problemau mathemategol; creu mapiau; cymryd nodiadau; defnyddio cynllunydd / calendr; creu dogfen; neu wrth gysylltu ag adnoddau electronig a ddarperir gan yr ysgol. Mae disgyblion yn gyfrifol am eu dyfeisiau personol ac yn cymryd y cyfrifoldeb o wirio gyda'r athro cyn cymryd rhan mewn defnyddiau penodol o dechnoleg.

#### Cyfathrebu amhriodol:

Bydd disgyblion yn ymatal rhag defnyddio eu dyfais ar gyfer cyfathrebu amhriodol. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol: bwlio, bygwth, iaith anweddus, iaith anghysegregatedig a / neu ddelweddau a all achosi niwed i unigolyn neu'r ysgol. Ni all disgyblion ddefnyddio eu dyfeisiau ar gyfer ymosodiadau personol ar fyfyrwyr neu staff eraill. Ni chaniateir i fyfyrwyr aflonyddu neu / stelcian disgyblion neu staff eraill. Os yw aelod o staff yn gofyn i fyfyrwr i roi'r gorau i anfon negeseuon electronig, rhaid iddynt roi'r gorau ar unwaith.

#### Defnydd o ddelweddau digidol a/neu waith disgyblion:

Fel rhan o'r cynllun hwn, gall lluniau neu waith y disgyblion gael eu defnyddio ar y rhyngwrwyd. Byddwn yn sicrhau bod y delweddau sy'n cynnwys disgyblion yn cael eu dewis yn ofalus, a bydd enwau'r disgyblion DDIM yn cael eu defnyddio mewn cysylltiad â ffotograffau. Dylai unrhyw riant / warcheidwad sydd *ddim* yn dymuno gweld delwedd/gwaith eu plentyn yn cael eu defnyddio yn y modd addysgol hwn gysylltu nodi hynny drwy wrthod caniatad fel rhan o'r polisi e-ddiogelwch a delweddau. Gellir dileu caniatad ar unrhyw adeg drwy gysylltu a'r ysgol yn ysgrifenedig.

#### Cynnwys Cymdeithasol/Adnoddau'r We/ Cydweithio:

Fel ysgol sy'n cydnabod y manteision addysgol a gynigir gan gydweithio, efallai y bydd Ysgol Dyffryn Conwy yn annog disgyblion i gael mynediad at wefannau neu offer sy'n caniatáu cyfathrebu, cydweithio, a rhannu negeseuon ymhlith defnyddwyr. Bydd hyn yn cynnwys y defnydd o rhwydwaith Hwb – rhwydwaith addysg sydd wedi ei greu gan Llywodraeth Cymru ar gyfer ei ysgolion. Ceir mynediad at feddalwedd ychwanegol megis Office 365 am ddim drwy Hwb. holl reolau'r ysgol yn berthnasol i ymddygiad ar-lein o'r fath.

#### Diogelwch:

Mae'r ysgol yn darparu hidlydd ar gyfer mynediad disgyblion i'r Rhyngwrwyd. Fodd bynnag, ar adegau, efallai y gall deunydd amhriodol basio heibio'r hidlwyr gan gael eu gweld gan fyfyrwr. Rhaid i fyfyrwr adrodd y digwyddiad i'w hathro neu i'r Technegydd TGCh, Swyddog E-Ddiogelwch/Amddiffyn plant. Bydd disgyblion yn cael eu dal yn atebol am unrhyw ymgais fwriadol i osgoi hidlyddion a diogelwch yr ysgol. Rhaid i bob dyfais gael eu cadw yn ddiogel pan na ddefnyddir hwy. Mae'r ysgol yn argymhell yn gryf bod dyfeisiau a chasys yn cael eu personoli i atal colledion.

#### **Cam Ddefnyddio TGCh**

Pwysleisir i ddisgyblion:

- a) Y pwysigrwydd i ddefnyddio meddalwedd TGCh yn gyfrifol h.y. ni ddylid defnyddio safleoedd megis Facebook, SnapChat, Instagram i ddweud pethau anweddus ynglŷn â disgyblion eraill a thaw math o fwllian yw hyn.

b) Y peryglon o fynd i mewn i ystafelloedd sgwrsio gan ddarparu manylion personol. Pwysleisir iddynt fod pobl ddiegwyddor yn defnyddio'r safleoedd hyn er mwyn achub mantais ar bobl ifainc.

### **Goruchwyllo a Monitro:**

Mae technegydd yr ysgol yn monitro'r defnydd o adnoddau technoleg gwybodaeth i neiau i sicrhau bod y defnyddiau yn ddiogel ac yn cydymffurfio a'r polisi hwn. Mae technegydd yn cadw'r hawl i archwilio, defnyddio, a datgelu unrhyw ddata a geir ar rwydweithiau gwybodaeth yr ysgol er mwyn hyrwyddo iechyd, diogelwch, disgyblaeth, neu ddiogelwch unrhyw fyfyrwr neu berson arall, neu i ddiogelu eiddo. Efallai y byddant hefyd yn defnyddio'r wybodaeth hon mewn camau disgyblu, fel rhan o dystiolaeth o drosedd er mwyn cynnal y gyfraith. Mae'r ysgol yn cadw'r hawl i benderfynu pa fath o ddefnydd sydd yn gyfystyr a defnydd derbyniol ac yn medru cyfyngu mynediad i ddefnyddiau o'r fath. Mae'r ysgol hefyd yn cadw'r hawl i gyfyngu ar yr amser i fynediad (i'r rhwydwaith).

### **Cymorth technegol a chysylltiadau rhwydwaith:**

Os yw disgybl yn methu cael mynediad i'r rhwydwaith diwifr (neu'n efallai'n cael anawsterau technegol gyda dyfais bersonol), rhaid iddynt ddatrys y mater hwn drwy weithio gyda'r llawlyfr defnyddiwr a ddaeth gyda'r ddyfais y tu allan i'r ystafell ddosbarth, neu gysylltu â'r (ail) gwerthwr yn uniongyrchol. Nid yw'r rhain yn ddyfeisiau sy'n eiddo i'r ysgol a ni all yr ysgol ddyrannu adnoddau i ddatrys materion cysylltiad ar hyn o bryd.

### **Gwefru ac Argraffu:**

Cyfrifoldeb y disgybl yw dod a'u dyfais i'r ysgol wedi ei wefru'n llawn. Nid ydym yn gallu cynnig cyfleusterau argraffu uniongyrchol ar hyn o bryd, felly er mwyn argraffu, dylai gwaith gael ei roi ar yr ardal 'Fy Nogfennau' ar y cyfrif ysgol (e.e. drwy drosglwyddo gwaith drwy USB). Yna, gellir cael mynediad drwy gyfrifiadur ysgol i'r rhwydwaith er mwyn argraffu.

### **Troseddau yn erbyn Polisi Defnydd Derbyniol:**

Mae dod a dyfais eich hun yn fraint ac nid yn hawl. Bydd disgyblion nad ydynt yn dilyn disgwyliadau ar gyfer defnydd o ddyfeisiadau personol yn wynebu camau disgyblu ac yn colli'r fraint o ddefnyddio dyfeisiau personol yn yr ysgol am gyfnod o amser, neu yn barhaol.

Polisi DAD 'Dewch a'ch Dyfais' - CYTUNDEB DISGYBL

Rwyf yn cytuno a'r Polisi Defnyddiwr Derbyniol uchod ar gyfer cynllun "Dewch A'ch Dyfais" yn Ysgol Dyffryn Conwy, ac yn cytuno y bydd unrhyw dorri rheolau o'r Polisi Defnyddiwr Derbyniol yn arwain at ymyrraeth. Yr wyf hefyd yn cytuno i reoli fy nyfais yn briodol, ac i gadw at y polisi defnyddio'r rhyngwyd ysgol gyfredol.

Rwyf wedi darllen ac yn deall y Polisi Defnydd Derbyniol 'Dewch a'ch Dyfais\*', ac yn cytuno i gadw at y telerau a'r amodau

Dosbarth: \_\_\_\_\_

Enw Disgybl (nodwch yn glir)

Llofnod y Disgybl

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

CYTUNDEB RHIANT/GWARCHEIDWAD

Fel rhan o'r peilot DAD hwn, rydym yn awyddus i glywed barn rhieni/gwarcheidwaid am y datblygiadau yma. A fydddech cystal â defnyddio r gofod isod i rannu eich sylwadau (cadarnhaol a/neu negyddol) gyda ni:

Rwyf wedi darllen a deall y polisi Defnydd Derbyniol ac rwyf y Telerau a'r amodau o fewn y Polisi. Rwyf hefyd yn rhoi caniatâd i fy mhlentyn ddefnyddio rhaglenni 'edmondo' a 'Google Apps for Education' fel rhan cynllun DÂD.

Enw Rhiant/ Gwarcheidwad

Llofnod Rhiant/ Gwarcheidwad

\_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_

## Hyfforddiant

Darperir hyfforddiant i aelodau'r staff drwy:

- Gynnal sesiynau fel rhan o HMS/gweithgareddau Dysgu Proffesiynol a chalendr cyfarfodydd ysgol;
- Rhyddhau staff i fynychu cyrsiau HMS/gweithgareddau Dysgu Proffesiynol tu allan i'r Ysgol;
- Manteisio ar gefnogaeth TGCh ALL a gan GWE.

## Adnoddau

Er mwyn sicrhau defnydd da o TGCh rhaid gwneud yn siŵr:

- a) Bod digon o adnoddau yn nhermau caledwedd a meddalwedd.
- b) Bod y caledwedd / meddalwedd yn cael eu cynnal a'u cadw yn dda fel eu bod yn gweithio'r mwyafrif o'r amser. Sicrheir hyn drwy gyflogi dechnegydd **TGCh** a hefyd drwy dalu am gytundeb lefel gwasanaeth gan Cwmni Cynnal.
- c) Bu cynnydd aruthrol yn y caledwedd dros yn mlynedd ddiwethaf a cheir canran ddefnydd uchel o'r cyfarpar.

## Gweler hefyd – Cynllun Gweithredu TGCh/Cymwyseddau Digidol cyfredol yr Ysgol.

## Cyfrifoldebau

Y Pennaeth a'r Tîm Rheoli mewn ymgynghoriad â Phennaeth TGCh/Cyfrifiadureg a'r Technegydd TGCh sy'n gyfrifol am bennu'r amcanion blynyddol.

Rôl y Pennaeth TGCh/Cyfrifiadureg yw sicrhau ansawdd dysgu ac addysgu TGCh a cyfrifiadureg fel pynciau penodol o fewn cwricwlwm.

Rôl y Rheolwr Busnes a'r Technegydd TGCh yw sicrhau bod y meddalwedd a'r caledwedd yn gweithio, darparu cyngor i'r Tîm Rheoli ar adnewyddu, pwrcau, rheoli systemau TGCh ac adnoddau TGCh ysgol gyran. Byddent hefyd yn chydweithio yn strategol a Cwmni Cynnal, Awdurdod Conwy a Cwmni Sodexo wrth ddatblygu, adnewyddu a chynnal caledwedd a meddalwedd TGCh i gefnogi'r cwricwlwm a safonau'r ysgol.

## GDPR

Cynlluniwyd **Deddf Gwarchod Data 1998** a ddaeth i rym ar Fawrth 1af 2000 i sicrhau na chaiff data personol ei brosesu yn ddiarwybod i wrthrych y data ac, ar wahan i rai achosion, heb ganiatâd y gwrthrych, a sicrhau fod y data personol sy'n cael ei brosesu yn gywir ac yn cael ei gadw at ddibenion penodol. Mae'r ddeddf hefyd yn gosod allan safonau ar gyfer prosesu a diogelu data.

Heblaw gwarchod unigolion rhag gwybodaeth anghywir a hefyd y camddefnydd o wybodaeth gywir a gedwir amdanynt, mae'r Ddeddf yn rhoi hawliau i unrhyw unigolyn sy'n wrthrych data. Trwy gyflwyno cais a thalu'r ffi angenrheidiol gall gwrthrych y data gael copi o unrhyw wybodaeth a gedwir amdano/amdani. Mae data personol yn wybodaeth a gedwir am unrhyw berson byw y gellir ei adnabod o'r data hwnnw. Gall gynnwys rhifau personol myfyrwyr, lluniau, enwau a chyfeiriadau. Gall y wybodaeth fodoli mewn sawl fformat. Er enghraifft, data electronig sy'n cael ei gadw ar gyfrifiadur, dogfennau mewn system ffeiliau papur neu unrhyw fformat mwy anarferol megis lluniau teledu cylchred caeedig neu recordiadau llais.

Rhaid casglu data o'r fath a'i defnyddio'n deg, ei storio'n ddiogel, a pheidio â'i datgelu'n anghyfreithlon. Rhaid felly i'r Ysgol gydymffurfio ag Egyddorion Gwarchod Data a osodir yn Neddf 1998. O'u crynhoi, dywed y rhain;

- y dylid casglu a phrosesu data personol yn deg a chyfreithlon, ac ni cheir ei brosesu oni bai bod rhai amodau penodol yn cael eu cyflawni;
- y dylid ei gasglu i bwrpas penodol a chyfreithlon, a pheidio S'i brosesu mewn unrhyw ffordd sy'n anghymarus a'r pwrpas hwnnw;
- y dylai'r data fod yn addas, yn berthnasol, ac nid yn ormodol i'w bwrpas;
- y dylai'r data fod yn gywir a chael ei ddiweddarau'n gyson, lie bo angen;
- na ddylid ei gadw am gyfnod hwy nag sydd ei angen i'w bwrpas;
- y dylid ei brosesu'n unol 5 hawliau gwrthrych y data;
- y dylid ei gadw'n ddiogel rhag mynediad heb awdurdod, ei golli, neu ei ddifetha'n ddamweiniol;

- na ddylid ei drosglwyddo i wlad y tu allan i'r Adran Economaidd Ewropeaidd, oni bai bod gan y wlad honno lefelau cyfartal o warchod data personol.

Rhaid i'r Ysgol a phob aelod o staff, neu eraill sy'n prosesu unrhyw ddata personol am eraill, sicrhau eu bod yn cadw at yr egwyddorion hyn bob amser. Dyma bwrpas y Polisi Gwarchod Data.

### **3. Diogelu Data**

Mae'r holl staff yn gyfrifol am sicrhau'r canlynol:

- bod unrhyw wybodaeth bersonol sydd yn eu meddiant am bobl eraill yn cael ei dal yn ddiogel;
- nad yw gwybodaeth bersonol am bobl eraill yn cael ei datgelu mewn unrhyw ffurf i drydydd parti anawdurdodedig.

Bydd datgelu heb awdurdod fel arfer yn fater disgyblu, a gellir ei ystyried yn gamymddygiad dybryd. Gallai staff wynebu atebolrwydd cyfreithiol os ydynt yn ymwybodol neu'n fyrbwyll yn cael a/neu yn datgelu gwybodaeth bersonol, heb ganiatâd yr Ysgol. Mae hyn yn golygu defnyddio gwybodaeth a ddelir gan yr Ysgol i'w pwrpasau eu hunain, sydd y tu hwnt i bwrpasau cyfreithlon yr Ysgol.

Chanllawiau'r Gwasanaethau Gwybodaeth: gallai camddefnydd arwain at achos disgyblu.

### **6. Hawliau Gwrthrych y Data**

- Mae gan bob gwrthrych data'r hawl i'r canlynol:
- gwybod pa wybodaeth y mae'r Ysgol yn ei dal ac yn ei phrosesu amdanynt a pham;
- mynediad at y wybodaeth;
- cadw'r wybodaeth yn gyfredol;
- mewn rhai amgylchiadau, mae gan wrthrychau data'r hawl i ofyn i'r Ysgol gywiro, rhwystro, dileu neu ddiinistrio gwybodaeth anghywir;
- atal prosesu sy'n debygol o achosi niwed neu drallod;
- atal prosesu i bwrpas marchnata uniongyrchol; (gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol i'r rheini sydd â chyfrifoldebau am gyn-fyfyrywyr yr anfonir deunydd marchnata atynt yn rheolaidd o bosibl);
- yr hawl i iawndal os yw gwrthrych data yn dioddef niwed, neu niwed a gofid o ganlyniad i dorri'r Ddeddf Diogelu Data.